



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Rhaglen Delweddu  
Genedlaethol  
National Imaging  
Programme

## Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol – Chwarter 3

**Croeso i'r trydydd rhifyn o  
Gylchlythyr y Rhaglen Delweddu  
Genedlaethol!**

**Yn y 2 rifyn cyntaf o'n  
cylchlythyr, cawsoch lawer o  
ddeunydd cyflwyniadol! Gyda  
lwc, mae gennych chi'n awr  
ddealltwriaeth dda o'r rhaglen, ei  
ffrydiau gwaith a'i strwythur  
llywodraethu. Mae rhifynnau  
blaenorol o'r cylchlythyr i'w  
gweld [yma](#).**

Yn y rhifyn hwn, rydyn ni'n treialu  
ein fformat 'gosod' newydd, gan  
fyfyrto ar drydydd chwarter prysur  
iawn!

Os hoffech gael eich ychwanegu i'r  
rhestr ddisbarthu ar gyfer ein  
cylchlythyr, neu os oes gennych  
awgrymiadau am gynnwys i'r  
dyfodol, anfonwch e-bost ar:

[NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk).

## National Imaging Programme Newsletter - Quarter 3

**Welcome to third edition of the  
National Imaging Programme  
Newsletter!**

**In the first 2 editions of our  
newsletter, we covered a lot of  
introductory material! Hopefully  
you now have a good  
understanding of the programme,  
its workstreams and governance  
structure. Previous editions of  
the newsletter can be viewed  
[here](#).**

In this edition, we are trialling our  
new 'set' format, reflecting on a very  
busy third quarter!

If you would like to be added to the  
circulation list for our newsletter, or  
have suggestions for future content,  
please email:

[NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

## Diweddariadau ar y Ffrydiau Gwaith

### **Gweithlu ac Addysg**

#### **Cyflawniadau Allweddol Ch3**

- Mae dogfen y 'Strategaeth ar gyfer Datblygu Model Gweithlu Radioleg i Gymru' wedi cael ei chwblhau a chaiff

## Workstream Updates

### **Workforce and Education**

#### **Q3 Key Achievements**

- The 'Strategy for Developing a Radiology Workforce Model for Wales' document has been finalised and will be

ei chyhoeddi yn y Fflwyddyn Newydd.

- Cafodd y cynllun gweithredu lefel uchel i fwrw ymlaen yr argymhellion yn y papur strategaeth ei gyflwyno i'r Grŵp Gwasanaethau Hanfodol Delweddu (IESG) ar 24<sup>ain</sup> Hydref ac i Fwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSB) ar 10<sup>fed</sup> Tachwedd. Ymatebodd yr aelodau'n gadarnhaol, gan gydnabod natur gymhleth y rhaglen a'r cynnydd a wnaed hyd yma.
- Sicrhawyd cymeradwyaeth ffurfiol i symud i Gam 2 o 'Adeiladu Model Delweddu GIG Cymru'.
- Cytundeb i gydweithredu ag Adolygiad Codio ESR y Rhaglen Gwyddor Gofal Iechyd. Nod y gwaith hwn fydd sicrhau bod yr holl Weithlu Delweddu yng Nghymru, y rhai newydd a'r rhai presennol, yn cael eu codio'n gyson ac yn gywir yn y system ESR.
- Recriwtio Rheolwr Prosiect ar gyfer y Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg, cysylltwch â [Harriet.Ryland@wales.nhs.uk](mailto:Harriet.Ryland@wales.nhs.uk)

published in the New Year.

- The high-level action plan to take forward recommendations within the strategy paper was presented to Imaging Essential Services Group (IESG) on 24<sup>th</sup> October and to National Imaging Programme Strategy Board (NIPSB) on 10<sup>th</sup> November. Members responded positively, recognising the complex nature of the programme and the progress made to date.
- Formal approval to move to Phase 2 of 'Building the NHS Wales Imaging Model' secured.
- Agreement to collaborate with Healthcare Science Programme's ESR Coding Review. The aim of this work will be to ensure that all new and existing Imaging Workforce in Wales are consistently and correctly coded in the ESR system.
- Recruitment of Project Manager for Workforce and Education Workstream

**For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact [Harriet.Ryland@wales.nhs.uk](mailto:Harriet.Ryland@wales.nhs.uk)**

## **Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion**

### **Cyflawniadau Allweddol Ch3**

- Adolygydd a chymeradwywyd y Cylch Gorchwyl diweddaraf ar gyfer Fforwm Ansawdd Delweddu Cymru gyfan (AWIQF).
- Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i AWIQF ynglŷn â statws gweithredu'r Canllawiau Statws Beichiogrwydd Cynhwysol.

## **Quality, Safety and User Experience**

### **Q3 Key Achievements**

- Updated Terms of Reference for the All Wales Imaging Quality Forum (AWIQF) reviewed and approved.
- AWIQF were updated on implementation status of the Inclusive Pregnancy Status Guidelines.
- A paper drafted outlining an approach to National

- Cafodd papur drafft sy'n amlinellu'r agwedd at Weithredu yn Genedlaethol y Safon Ansawdd ar gyfer Delweddu (QSI) ei gyflwyno i NIPSB ar 10<sup>fed</sup> Tachwedd.
- Recriwtio Rheolwr Rhaglen ar gyfer y Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg, cysylltwch â [Amanda.Evans9@wales.nhs.uk](mailto:Amanda.Evans9@wales.nhs.uk)

Implementation of the Quality Standard for Imaging (QSI) was presented to NIPSB on 10<sup>th</sup> November.

- Recruitment of Programme Manager for Quality, Safety and User Experience Workstream.

For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact [Amanda.Evans9@wales.nhs.uk](mailto:Amanda.Evans9@wales.nhs.uk)

## **Cynllunio Adnoddau Strategol**

### **Cyflawniadau Allweddol Ch3**

#### **Prosiect Blaenoriaethau Cyfalaf ac Offer**

- Cafodd y data a'r dadansoddiadau yn y Gofrestr Asedau Offer Delweddu Genedlaethol eu hadnewyddu ym mis Hydref 2022.
- Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu Cam 2 y prosiect – dull cenedlaethol o wneud argymhellion a llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â dyrannu cyllid cyfalaf ar gyfer offer delweddu i'r dyfodol.
- Cafodd y broses werthuso a blaenoriaethu ei threialu mewn 3 Bwrdd Iechyd ac yna eu cymeradwyo gan y Grŵp Blaenoriaethau Cyfalaf ac Offer Delweddu Cenedlaethol (NIECP).
- Cyflwynwyd Proses Cam 2 i NIPSB ar 10<sup>fed</sup> Tachwedd – cymeradwyodd yr aelodau'r dull tra'n aros iddi gael ei chylchredeg ymhellach i roi cyfle i grwpiau penodol roi sylwadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg, cysylltwch â [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

## **Strategic Resource Planning**

### **Q3 Key Achievements**

#### **Equipment and Capital Priorities Project**

- Data and analysis in the master National Imaging Equipment Asset Register refreshed in October 2022.
- A Task and Finish Group was established to develop Phase 2 of the project - a national approach to make recommendations and inform Welsh Government decisions regarding allocation of future capital funding for imaging equipment.
- Evaluation and prioritisation process trialled in 3 Health Boards and subsequently approved by the National Imaging Equipment and Capital Priorities (NIECP) Group
- Phase 2 Process presented to NIPSB on 10<sup>th</sup> November – members endorsed the approach pending further circulation and opportunity for specific groups to comment

For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

## Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes

Caiff y ffrwd waith hon ei chyflwyno drwy Raglen Gaffael y System Gwybodeg Radioleg

## Informatics, Information and Business Intelligence

Delivery of this work stream is via the Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme.

## Diwrnod Radiograffeg y Byd / World Radiography Day





Rwy'n siŵr eich bod i gyd yn gywbod ein bod yn dathlu Diwrnod Radiograffeg y Byd ar 8<sup>fed</sup> Tachwedd bob blwyddyn, i nodi darganfod pelydr-x yn 1895. Y nod yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o radiograffeg fel gyrfa, fel cyfraniad holl bwysig i ofal iechyd modern ac mae hefyd yn gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o therapi delweddu a phelydredd diagnostig.

I nodi'r achlysur eleni, fe wnaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol:

- Anfon danteithion at bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth i ddathlu gwaith ein Hadrannau Radioleg gwych – gobeithio ichi gael cyfle i flasw rhai o'r brownis blasus!
- Gymryd drosodd gyfrif Twitter @CydGIGCymru, a thrydar ffeithiau a ffigyrau, gan dynnu sylw at lwybrau at yrfa mewn Radiograffeg yng Nghymru a chyfeirio ymlaen at gyfrifon defnyddiol eraill

Rydyn ni hefyd wedi trafod hyn mewn rhai cyfarfodydd allweddol o'r Grŵp Delweddu ac mae gennym gynlluniau cyffrous i gydweithredu â sefydliadau eraill i wneud hwn yn ddathliad mwy fyth y flwyddyn nesaf!

As I'm sure you are all aware, World Radiography Day is celebrated on 8<sup>th</sup> November each year, marking the discovery of x-radiation in 1895. The aim is to raise public awareness of radiography as a career, as a vital contribution to modern healthcare and also provides an opportunity to increase public awareness of diagnostic imaging and radiation therapy.

To mark the occasion this year, the National Imaging Programme:

- Sent treats to all Health Boards and Trusts to celebrate the work of our wonderful Radiology Departments – we hope you had opportunity to sample some delicious brownies!
- Took over the @NHSWalesCollab Twitter account, tweeting facts and figures, highlighting routes to a career in Radiography in Wales and signposting other useful accounts.

We have also discussed this at some key Imaging Group meetings and have some exciting plans to collaborate with other organisations to make this an even bigger celebration next year!

## Ymweliadau Ymgysylltu'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol / National Imaging Programme Engagement Visits



Hoffai'r tîm ddiolch o galon i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a gynhaliodd y cyntaf o'n hymweliadau ymgysylltu yn Chwarter 3.

Fe wnaethom ymweld ag Ysbyty Treforys yn Abertawe ar 5<sup>ed</sup> Hydref ac Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth ar 8<sup>fed</sup> Rhagfyr. Roedd hi'n braf cael cwrdd wyneb yn wyneb a dal fyny! Cawsom hefyd ein tywys o amgylch yr Adrannau Radioleg, a fu'n gyfle dysgu gwerthfawr iawn i'r rhai yn y tîm nad oes ganddynt gefndir delweddu clinigol.

Mae ymgysylltu yn ehangach yn rhan fawr o'n Cynllun Gweithredu Cyfathrebu ar gyfer 2022-23, ac edrychwn ymlaen i ymweld â mwy ohonoch yn y misoedd nesaf!

The team would like to say a big thank you to Swansea Bay University Health Board and Hywel Dda University Health Board who hosted the first of our engagement visits in Quarter 3.

We visited Morriston Hospital in Swansea on 5<sup>th</sup> October and Bronglais Hospital in Aberystwyth on 8<sup>th</sup> December. It was great to meet in person and catch up! We were also given a tour of the Radiology Departments, a valuable learning opportunity for those in the team who don't have a clinical imaging background.

Wider engagement is a big part of our 2022-23 Communications Action Plan, and we look forward to visiting more of you in the coming months!

## Newyddion am y Rhaglen

**Uchafbwyntiau allweddol eraill o Chwarter 3:**

- Efallai ichi sylwi bod gan y Rhaglen Delweddu

## Programme News

**Other key highlights from Quarter 3:**

- You may have noticed the National Imaging

Genedlaethol logo nawr! Yn wir, gobeithio eich bod wedi sylwi ar gynnydd cyffredinol yng ngweithgaredd Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r rhaglen – bu'r tîm yn gweithio'n galed i godi proffil ac amlygrwydd y rhaglen wrth inni symud oddi wrth y Cydweithrediad i'r strwythur llywodraethu newydd fel Gweithrediaeth GIG Cymru.

- Buom yn brysur yn recriwtio, gyda 4 swydd ar hyn o bryd wedi cael eu cynnig i ymgeiswyr! Un uchafbwynt yn Chwarter 4 yw'r ffaith y bydd y tîm yn dyblu mewn maint, ac edrychwn ymlaen i gyflwyno rhai o'n gweithwyr newydd yn y rhifyn nesaf!
- Mae'r tîm yn ddiolchgar iawn i'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau sydd eisoes wedi cynnal ymweliad ymgysylltu neu wedi ein gwahodd i roi cyflwyniad rhithiol. Ein bwriad yw trefnu dyddiadau i ymweld â phob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth erbyn diwedd Mawrth 2023.

Yn olaf, hoffem achub ar y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda ac lach ichi'n un ac oll! Gobeithio gewch chi gyfle i orffwyso a threulio amser gyda theulu a ffrindiau dros y gwyliau.

Programme now has a logo! In fact, we hope you have noticed a general increase the programme's Communications and Engagement activity – the team has been working hard to increase the visibility and profile of the programme as we transition from the Collaborative to the new NHS Wales NHS Executive governance structure.

- We have been busy with recruitment, with 4 posts currently in offer stage! A highlight of Quarter 4 will be the team doubling in size, and we look forward to introducing some of our new starters in the next edition!
- The team are very grateful to the Health Boards and Trusts who have already hosted an engagement visit or invited us to give a virtual introductory presentation. We are looking to secure dates to visit every Health Board/Trust by the end of March 2023.

Finally, may we take this opportunity to wish you all a very Merry Christmas and a Happy and Healthy New Year! We hope you manage to get some rest and spend time with family and friends over the festive period.

## Gwneud eich rhan!

Dilynwch gyfrif Twitter y Cydweithrediad [@CydGIGCymru](#)

Gwefan: [Rhaglen Delweddu Genedlaethol - Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru](#)

Os oes arnoch angen cysylltu ag

## Get involved!

Follow the Collaborative Twitter account [@NHSWalesCollab](#)

Website: [National Imaging Programme - NHS Wales Health Collaborative](#)

If you need to contact a member of the National Imaging Programme team, please email:

[NHSWHC.National.Imaging.P](mailto:NHSWHC.National.Imaging.P)

aelod o dîm y Rhaglen Delweddu  
Genedlaethol, e-bostiwrch:  
[NHSWHC.National.Imaging.P  
rogramme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.P<br/>rogramme@wales.nhs.uk)

**Rhifyn nesaf – Mawrth  
2023!**

[rogramme@wales.nhs.uk](mailto:rogramme@wales.nhs.uk)

**Next edition – March  
2023!**

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth,  
Cardiff, CF15 9SS United Kingdom

[Unsubscribe](#) [helen.james13@wales.nhs.uk](mailto:helen.james13@wales.nhs.uk)

[Update Profile](#) | [Constant Contact Data Notice](#)

Sent by [nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk](mailto:nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk) powered by



Try email marketing for free today!